12FED O FEDI

# Ysgol Treganna

## Cylchlythyr wythnosol



## Wythnos yma

Rydym wedi cael wythnos hyfryd yn yr ysgol ac mae’r holl ddisgyblion bellach wedi ymagrtrefu yn eu dosbarthiadau newydd.

**Sesiynau Cwrdd â’r Athro**

Cofiwch am y sesiynau “Cwrdd â’r Athro” rydym wedi trefnu ar gyfer wythnos nesaf.Bwriad y sesiynau yma yw rhoi cyfle i rieni/ gwarcheidwaid i gyfarfod athrawon y dosbarth, i holi cwestiynau ac i dderbyn gwybodaeth am drefniadau’r dosbarth. Oherwydd diffyg lle a goruchwyliaeth, gofynnwn yn garedig i rieni yn unig fynychu’r sesiynau yma

**Cyfarfod i rieni newydd “Croeso i Dreganna”**

Dydd Iau, y 18fed o Fedi bydd y GRhA yn trefnu digwyddiad cymdeithasol i rieni newydd y Feithrin a’r Derbyn. Bydd y sesiwn yn cychwyn am 3.30yh yn y neuadd fach a bwriad y sesiwn yw rhoi cyfle i rieni newydd i gymdeithasu gyda'i gilydd dros baned. Croeso mawr i rieni a phlant!

**Trosolwg o waith y tymor**

Heddiw mae trosolwg o waith y tymor ar gyfer bob blwyddyn wedi eu danfon atoch. Mae’r trosolwg yn rhoi amlinelliad i chi o drywydd ymholi'r dosbarthiadau ar gyfer y flwyddyn. Rydym hefyd wedi cynnwys linc i holiadaur cwricwlwm er mwyn rhoi’r cyfle i chi gyfrannu tuag at gwricwlwm ein hysgol. Edrychwn ymlaen yn fawr at gydweithio gyda chi eleni er mwyn darparu profiadau addysgol cyfoethog i’r holl ddisgyblion.

## Calendr

YSGOL TREGANNA

**Nosweithiau Agored**

**Wythnos yn cychwyn y 15fed o Fedi**

**Croeso i Dreganna (Digwyddiad y GRhA i rieni newydd)**

**Nos Iau y 18fed o Fedi**

# Clwb Brecwast

Mae'r Clwb Brecwast bellach wedi ail gychwyn a'r disgyblion yn cyfarwyddo unwaith eto gyda'r drefn.

Gofynnwn yn garedig i chi sicrhau bod disgyblion newydd sy'n mynychu'r clwb eleni am y tro cyntaf wedi cofrestru gyda'r dderbynfa.

Hoffwn eich atgoffa hefyd bod disgyblion derbyn i flwyddyn 6 i ddod mewn trwy'r giât ac nid trwy brif fynedfa'r ysgol.

Mae'r giât yn agor am 8.10yb ac yn cau am 8.20yb.

Gofynnwn yn garedig i chi sicrhau eich bod yn brydlon oherwydd bydd y giât yn cau am 8.20 i bawb.

Os mae eich amgylchiadau yn newid eleni a ni fyddwch am ddefnyddio'r Clwb Brecwast, yna gofynnwn yn garedig i chi hysbysu'r dderbynfa.

# Sianel Teams Darllen

Yn Ysgol Treganna mae gan bob plentyn sianel darllen/ cofnod darllen Teams.

Yn ystod yr wythnos wrth i'r athrawon  wrando ar eich plentyn yn darllen maent yn cofnodi adborth a'r ffordd ymlaen yn y sianel darllen.

Gofynnwn yn garedig i chi fel rhieni i ddarllen ac ymateb i'r sylwadau gyda bawd i fyny neu wrth ymateb yn ysgrifenedig.

Mae darllen yn flaenoriaeth i ni yma yn Nhreganna ac rydym am sicrhau bod y cyswllt a'r cyfathrebu rhwng y cartref a'r ysgol yn un cadarnhaol ac adeiladol.

Bydd y staff yn sôn mwy am y sianel darllen yn ystod y nosweithiau agored wythnos nesaf.

Diolch yn fawr am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth.

## Bws Beic

Bydd Bws Beic Ysgol Treganna yn ail gychwyn ar ddydd Gwener, y 19eg o Fedi. Croeso mawr i rieni newydd a dyma linc i ymuno â grŵp WhatsApp y Bws Beic.







## Patrwm Iaith

**Wythnos nesaf, dyma batrwm iaith yr wythnos**
Mae gen i …….
Does gen i ddim…..

**Her**
Yn ffodus, mae gen i...
Yn anffodus, does gen i ddim..

**Testun trafod yr wythnos**
Beth petai dim ceir?

**Cân yr wythnos**
Adwaith - Lan y môr

**Idiom yr wythnos**
Yn wên o glust i glust.

# Croeso i Dreganna

Ymunwch â ni - cyfle i gymdeithasu â theuluoedd dosbarthiadau'r Meithrin a Derbyn. Bydd diodydd a chastell neidio.

Join us - an opportunity to socialise with Nursery and Reception class families. There'll be drinks and a bouncy castle.

**Dydd Iau 18 Medi**
**Thursday 18 September**
**3.30pm**

£2 y teulu | per family
Ysgol Treganna

FFRINDIAU YSGOL TREGANNA